



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae: O Uchelgais i Weithredu

Adroddiad Terfynol – Chwefror 2025 i Mai 2026

Fersiwn i blant



Helo

Mae chwarae'n hwyl.

Gall eich helpu i:

- wneud ffrindiau
- symud eich corff
- ddefnyddio eich dychymyg
- roi cynnig ar bethau newydd
- ddysgu sgiliau newydd
- ddatrys pethau drosoch eich hun.

Gallwch chwarae mewn llawer o ffyrdd... a mewn llawer o lefydd

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i blant ledled Cymru gael llawer o gyfleoedd i chwarae.



Ein gweledigaeth: 'Cymru – Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae'

2019
i 2023

Fe wnaethon ni wrando a gwneud cynllun

Dywedodd plant, pobl ifanc ac oedolion wrthym ni beth allai wneud chwarae'n well.

Mae Cymru wedi bod yn gweithio i wneud chwarae'n well

Fe wnaethon ni ddechrau gwneud newidiadau


Fe wnaethon ni greu cynllun gyda llawer o bethau i'w gwneud i wella chwarae ledled Cymru.

2024
i 2025

Dyma ble rydyn ni nawr

Mae llawer wedi'i wneud.

Rydyn ni'n dal i weithio ar rai pethau.



Mae gennych chi'r hawl i orffwys, ymlacio a chwarae!

Erthygl 31. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

2026

Ers yr adroddiad diwethaf

➤ Fe wnaethon ni helpu ysgolion i wneud mwy o amser i chwarae

Mae gan rai ysgolion offer chwarae newydd, gweithgareddau yn yr awyr agored a llefydd lle gall plant ddewis sut maen nhw eisiau chwarae.

➤ Fe wnaethon ni helpu mwy o blant i ymuno a chwarae

Mae gan rai mannau chwarae lwybrau gwell, arwynebau gwell a mannau awyr agored dan orchudd.

➤ Fe wnaethon ni helpu i wneud chwarae'n fwy diogel

Mae clybiau a phobl eraill sy'n gweithio gyda phlant wedi cael cymorth i helpu i gadw plant yn ddiogel.

➤ Fe wnaethon ni roi arian i helpu i wella chwarae mewn ysgolion a chymunedau.

➤ Fe wnaethon ni wrando ar blant.

Mae eu syniadau'n helpu i newid y llefydd lle maen nhw'n byw ac yn chwarae.

➤ Fe wnaethon ni greu mwy o lefydd da i chwarae

Mae meysydd chwarae gwell, llefydd naturiol, mannau chwarae mewn ysgolion a llefydd i blant hŷn hefyd.

...a llawer mwy!



Rhai pethau da sydd wedi digwydd



1. Ledled Cymru – mae gan blant fwy o bethau i chwarae gyda nhw yn yr ysgol

Mae gan rai ysgolion podiau chwarae neu giwbiau chwarae erbyn hyn.

Maen nhw'n llawn pethau y gall plant eu symud, adeiladu gyda nhw a'u defnyddio yn eu ffordd eu hunain.

2. Fe wnaeth syniadau plant helpu i wella parc

Edrychodd plant a theuluoedd ar barc a dweud y gallai fod yn well. Gwrandawodd yr oedolion.

Cafodd y parc ei newid i fod yn lle gwyrddach a gwell i bawb chwarae!

3. Dywedodd plant wrth oedolion sut beth oedd chwarae y tu allan lle roedden nhw'n byw

Dyweddodd rhai nad oedd digon o lefydd i chwarae a'u bod nhw weithiau'n poeni am deimlo'n ddiogel. Gwrandawodd yr oedolion.

Nawr mae cynlluniau ar gyfer mwy o goed, blodau gwyllt a llefydd naturiol i chwarae.

Diolch i bawb a rannodd eu syniadau ac a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn.

Byddwn yn parhau i weithio a gwrando ar blant er mwyn i ni allu gwella chwarae ledled Cymru!

